
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Llanbedrog i Abersoch

## Yn sicr, mae ymweld ag oriel gelf Plas Glyn y Weddw a cherdded i fyny pentir Mynydd Tir y Cwmwd, gyda'i olygfeydd ysblennydd o Eryri, yn un daith na ddylid ei cholli.

*"Dyma daith gerdded wych lle cewch gyfle i fwynhau gwaith celf yn ogystal â phaned a theisen. Wrth i chi droedio i lawr y pentir hwn a chyrraedd y traeth cewch fwynhau rhai o olygfeydd arfordirol mwyaf godidog Abersoch."*

**RHYS ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:
Oriel gelf Plas Glyn y Weddw i Abersoch.

### Pellter:
4 milltir/6km.

### Ar hyd y ffordd...
Cychwynnwch ym Mhlas Glyn y Weddw, sef plasty Fictoraidd rhestredig Gradd II a chanolfan ddiwylliannol. Os ydych yn gwirioni ar gelf, cofiwch bori trwy'r oriel cyn cychwyn ar eich taith gerdded – mae'n llawn o'r gweithiau celf mwyaf cyfoes o bob cwr o Gymru.

Pan fyddwch yn barod i gychwyn ar eich taith, gallwch naill ai ddilyn y llwybr trwy'r coetiroedd ar dir Plas Glyn y Weddw, neu gerdded i lawr at y traeth a dilyn y llwybr ar hyd yr arfordir.

Mae llwybr y coetir yn serth a bydd angen i chi fod yn weddol ffit i'w droedio, ond mae'r ddau lwybr yn cyfarfod wrth olygfan Trwyn Llanbedrog. Ni fyddwch ar eich pen eich hun ar Fynydd Tir y Cwmwd, oherwydd caiff y llecyn ei amddiffyn gan gerflun trawiadol 'Y Dyn Haearn', sy'n cadw golwg drwy'r amser ar ddyfroedd disglair Bae Ceredigion.

O'r fan hon, mae'r llwybr yn ymdroelli trwy Fynydd Tir y Cwmwd, sef rhostir gwarchodedig sy'n doreithiog o fywyd gwyllt, cyn eich tywys i lawr at 'Y Gwningar'. Dyma un o'r ddau draeth a geir yn Abersoch, ac mae'r llecyn tywodlyd hir hwn â thai glan môr dethol ar ei hyd.

Yn olaf, cerddwch ar hyd y traeth i Abersoch ei hun, un o'r cyrchfannau glan môr mwyaf poblogaidd a ffasiynol ym Mhen Llŷn.

### Angen gwybod:
Ceir toiledau a chaffi bendigedig ym Mhlas Glyn y Weddw sy'n gwerthu teisennau cartref a bwydydd cinio, ac mae Abersoch yn frith o dafarnau a chaffis.

Mae gwasanaeth bysiau Pen Llŷn yn teithio rhwng Abersoch a Llanbedrog, ewch i'w gwefan i gael yr amseroedd a'r mannau casglu www.bwsarfordirllyn.co.uk